Cyfarfod Cyngor Cymuned Aberffraw yn Ystefell JOW, Neuadd y Pentref
Nos Fercher, Hydref 16, 2024

1	Presennol: Clerc: Ymddiheuriadau:	Bryan Owen (Cadeirydd), Barry Owen, Douglas Fowlie, Oliver Fowlie, Allan Rees, Cynghorydd John Ifan Jones, Chris Topps Elen Jones Ellie Smith, Richard F Owen, Glenys Stallwood, Rachel Louise Jones, Elwyn Evans, Cynghorydd Arfon Wyn
2	Datgan Diddordeb:	Neb yn datgan diddordeb.
3	Cytuno ar gofnodion o'r cyfarfod diwethaf:	Cytunwyd fod cofnodion o'r cyfarfod diwethaf yn gywir. Prop B Owen, 2il A Rees.
4	**Materion yn codi or cofnodion**	
4.1	Erydu ar risiau Llwybr yr Arfordir	Mae'r Cynghorydd JIJ wedi derbyn e-bost gan Swyddog Llwybr yr Arfordir yn cydnabod bod gwaelod y grisiau wedi dirywio. Bydd CSYM yn dechrau ar y gwaith o ddatrys hyn yn fuan. Mae contractwr wedi prisio'r swydd ac yn barod i fynd, ond rhaid i CSYM fodloni unrhyw ofynion cadwraeth yn gyntaf.
4.2	Parcio Palmant/parcio Llys Llewelyn/llinellau melyn-dwbl	Dywedodd y Cyng JIJ fod y gwaith yn cychwyn gydag Alun Roberts, Contractwyr
4.3	Arwyddion a Chyflwr Maes Parcio'r Traeth	Cytunwyd nad oedd angen unrhyw gamau pellach.
4.3	Cyfrifoldebau'r Cyngor ynglŷn â'r Fynwent	Nododd DF ar ôl trafodaeth gyda Chynghorau Cymuned eraill nad oes gan gynghorau eraill arwyddion mewn mynwentydd. Cytunwyd i beidio gosod arwydd yn y Fynwent.
4.4	Clirio Llwybr Mynwent	Dywedodd BO ei'n bod wedi derbyn dyfynbris o £500, sy'n swm uchel iawn. Nododd BO ei fod wedi dechrau glanhau'r llwybr ei hun er mwyn arbed arian. Dywedodd AR y gallai fod yn syniad da i edrych mewn i gostau prynnu golchwr pŵer batri. Bydd y clerc yn ymchwilio a dod nol at y Cyngor yn y Cyfarfod nesaf.
4.5	Murlun Balchder Bro	Bydd y clerc yn cyfarfod â'r artist ar Hydref 18fed i benderfynu ar leoliad y murlun yn y parc.
4.6	Arwydd Treftadaeth	Nododd y clerc y byddai un arwydd mawr yn cymryd lle'r ddau arwydd presennol. Gofynnodd CT a fyddai'r bwrdd yn cael ei brawfddarllen cyn ei osod, gan fod arwydd oedd wedi cael ei roi fyny yn y pentref yn flaenorol gyda camgymeriad sillafu. Y clerc i gadarnhau gyda Menter Môn.

4.7	Sedd Wag Aelod Cyngor	Nododd BO fod yr hysbysiad i fyny ar yr hysbysfyrddau o amgylch y Pentref ac ar Wefan y Cyngor Cymuned ac mae ES wedi rhannu'r hysbysiad ar y Cyfryngau Cymdeithasol. Mae gan etholwyr hyd at 24ain o Hydref i gysylltu â'r clerc i ddatgan diddordeb mewn bod yn cynghorydd cymuned. Clerc i ddiweddaru'r Cyngor ar ôl Hydref, 24.
4.8	Hen Bont - Cadw	Dywedodd y Cyng JIJ wrth y Cyngor ei fod wedi dod o hyd i gyswllt yn Cadw ac y bydd yn cysylltu i rannu pryderon. Cytunodd y Cyngor bod angen dod â'r bont yn ôl i'w chyflwr naturiol sef y cyflwr gwreiddiol.
4.9	Arwydd - Traeth y tu allan i'r Neuadd Bentref	Bydd y Clerc, AR a BO yn cyfarfod â'r Adran Briffyrdd 18/10 i drafod ymhellach. Bydd y Clerc yn rhannu cynlluniau yn y cyfarfod nesaf.
5.0	Sul y Cofio	Mae CT wedi trefnu'r bygl. Nododd y clerc ei bod wedi trefnu i gael torri gwair yn y fynwent cyn y 10fed o Dachwedd. Dywedodd DF y bydd aelodau'r clwb pêl-droed yn arddangos pabi o amgylch y pentref. Bydd DF hefyd yn prynu torch ar ran y cyngor cymuned.
6.0	**Gohebiaeth CSYM - Cynllunio**	
6.1	Ymgynghoriad Cynllunio - Byngalo Fferam, Ty Croes	Dim gwrthwynebiad.
7.0	**Gohebiaeth Arall**	
7.1	Llythyr oddi wrth CSYM - Adolygiad o'r cyfyngiadau cyflymder 20MYA	Cytunwyd bod yr 20mya i aros yn y pentref. Dim sylw pellach i'w rannu gyda CSYM.
7.2	Siarter Cymunedol ar y Cyd	Dim sylwadau. CT prop and BO 2il.
7.3	Cyfoeth Naturiol Cymru - Lansio cychod (arwydd)	Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i tynnu tuag at ardal yng ngwaelod Aberffraw lle mae mwy a mwy o gychod a chanws yn cael ei lawnsio. Mae hyn yn awr wedi wedi achosi niwed a'r erydiad amlwg i'r heli môr a gwely chyrs sy'n nodwedd o'r Safle Gwarchodedig yn aber yr Afon Ffraw. Cysylltodd CNC i holi os oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad os wnewn ni rhoi **arwydd bach** yno yn gofyn iddynt lawnsio o'r lleoliad cywir, mae yno slipway o fath yn bellach lawr I arbed y cynefin sydd yno. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i CNC roi arwydd bach ond bydd y clerc yn cysylltu â CNC i ofyn am union leoliad yr arwydd bach a bydd yn e-bostio'r cyngor am sylwadau.
8.0	**Materion Eraill**	
8.1	Meinciau Cae Chwarae a Chae Chwarae	Nododd BO fod meinciau'r meysydd chwarae yn dechrau pydru. Adroddodd AR ei fod wedi archwilio'r byrddau picnic a darganfod bod un fainc wedi'i llosgi ychydig. Bydd y clerc yn archwilio grantiau posibl ar gyfer rhai yn eu lle. Argymhellodd y Cyng JIJ gysylltu â Chymdeithas Elusennol am gefnogaeth. Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan aelod o'r cyhoedd yn awgrymu ein bod yn

		defnyddio'r arian oedd gan y cyngor o'r ffilmio i gael goliau mwy i'r plant. Hefyd, byddai cae chwarae gwell yn wych a biniau o gwmpas y parc. Mae'r clerc blaenorol wedi trefnu i'r pyst gôl gael eu rhoi yn ôl i mewn yr wythnos hon. Cytunwyd y dylid creu is-grŵp ar gyfer yr ardal chwarae, yn cynnwys rhieni o'r gymuned, i'w galluogi i rannu eu barn, eu hawgrymiadau a'u syniadau am yr hyn yr hoffent ei weld yn y dyfodol.
9.0	**Materian Ariannol**	
9.1	Diweddariad - Cyfarfod Cyllideb	Cynhaliwyd cyfarfod cyllideb yr wythnos diwethaf. Dywedodd BO, Cadeirydd y cytunwyd ar yr isod: 1. Pleidleisiodd yr is-grŵp i beidio â chynyddu'r praesept. 2. Mae'r Clerc i dendro torri gwair am 3 blynedd am 15 toriad gyda lwfans ar gyfer gwrychoedd y fynwent, torri'r man picnic yn ôl a thorri llwyni/coed yn y cae chwarae. 3. Bydd y Clerc yn caffael yr yswiriant ond hefyd yn cael prisiad ar gyfer y neuadd bentref felly mae lwfans ar gyfer cost prisio wedi ei gynnwys. 4. Bydd angen ceisio grantiau ar gyfer gosod meinciau newydd yn y cae chwarae ac yn y man picnic. Clerc i ddod o hyd i arian gan gynnwys Cynghrair Bro Aberffraw sydd wedi ariannu offer chwarae mewn ardaloedd eraill. 5. Bydd cyfraniad o £200 yn mynd i Glwb Pêl-droed Aberffraw i'r Plant gael Parti Nadolig.
11.0	**Dyddiad Cyfarfod Nesaf 20/11/24**	

Bydd crynodeb arainnol yn cael ei ddiweddaru unwaith fydd y clerc wedi ei dderfbyn gan Swyddog Cyfrifol Ariannol.